11.08.2022

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Mas ar y Maes: Dathlu hunaniaeth LDHTC+ yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022

Bellach, mae arlwy Mas ar y Maes yn rhan annatod o gyffro'r Eisteddfod Genedlaethol. A nos Fercher Awst 24, bydd cyfle i fwynhau'r wledd ar S4C.

Ers 2018, mae Mas ar y Maes yn rhoi llwyfan i faterion a phobl LDHTC+ ar draws faes yr Eisteddfod. Ac eleni, roedd dros 30 o ddigwyddiadau gwahanol o dan faner Mas ar y Maes.
Iestyn Wyn a Meilir Rhys Williams sy'n cyflwyno'r rhaglen arbennig hon, a roedd y ddau hefyd yn cymryd rhan mewn sawl digwyddiad dros yr wythnos.

Mae Meilir yn un o griw Cabarela, ac un o uchafbwyntiau'r wythnos oedd y sioe a lenwodd y pafiliwn nos Fawrth yr Eisteddfod. Wrth baratoi, mae Meilir yn ymfalchïo ym mha mor bell mae pethau wedi dod:

"Os fysa ti 'di deud wrtha i pan oni'n 8 mlwydd oed y byswn i'n mynd i fod yn y pafiliwn yn 34, yn gwisgo ffrog a sodlau o flaen cynulleidfa o ddwy fil o bobl, fyswn i ddim wedi dy goelio di.
"Mae'r ffaith ein bod ni'n cael perchnogi'r llwyfan heno i gynulleidfa sydd wedi dewis bod yno – mae o bendant yn drobwynt ac mae'n agor yr Eisteddfod i gymuned ehangach o Gymry a thu hwnt i bobl sydd eisiau dod i fwynhau diwylliant."

Cawn hefyd flas ar sesiwn dwy gomedïwraig, sydd hefyd yn bartneriaid, sef Priya Hall a Leila Nevabi, a sgwrs ddifyr am lenorion LHDTC+ a'u gwaith gyda Gareth Evans-Jones, Megan Angharad Hunter a Llyr Titus ar Lwyfan y Llannerch.

Yn ogystal â bwrlwm perfformiad Querin, sef cymysgedd o ddawnsio gwerin a'r diwylliant cwiar sy'n dathlu'r traddodiad mewn ffordd wahanol, ac amser stori drag yn y Pentref Plant.
Mae Iestyn Wyn yn holi'r cerddor a'i ffrind, Lloyd Steele, yng Nghaffi Maes B a cawn fwynhau cân arbennig ganddo.

A pinacl yr wythnos oedd y Parti Pinc gyda'r Gymuned Dawnsfa Cymreig yn y pafiliwn, ac roedd croeso i bawb ymuno yn yr hwyl. Roedd Ellis Lloyd-Jones, y seren Tik Tok, yn rhan o'r parti:
"Profiad *absolutely camp*, anhygoel!" Meddai Ellis. "Methu credu fod hwnna newydd ddigwydd – ac yn yr iaith Gymraeg hefyd! Pan oni'n ifanc, fyswn i wedi caru gweld rhywbeth fel hyn, ac i berfformio ynddo fe, mae'n rywbeth *massive*. Felly gobeithio blwyddyn nesaf – fyddai yna!"

Mae'r rhaglen hon yn ddathliad arbennig o'r gymuned LDHTC+ yma yng Nghymru gan ddangos fod lle i bawb ar faes yr Eisteddfod.

"Boed i'r newid hynny barhau," meddai Meilir, "fel bod yna fwy a mwy o groeso i bob aelod o gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol."

**Mas ar y Maes**
**Nos Fercher 24 Awst 9.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Rondo/Docshed ar gyfer S4C**

11.08.2022

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Mas ar y Maes: Celebrating LGBTQ+ identity at the 2022 National Eisteddfod

By now, **Mas ar y Maes** is an integral part of the excitement of the National Eisteddfod. And on Wednesday August 24, there is a chance to enjoy the week's highlights on S4C.

Since 2018, **Mas ar y Maes** has given a platform to LGBTQ+ issues and individuals across the Eisteddfod. And this year, there were over 30 different events under the **Mas ar y Maes** banner.

Iestyn Wyn and Meilir Rhys Williams present this special program, and they were also taking part in several events over the week.

Meilir is one of the Cabarela crew, and one of the highlights of the week was the show that filled the pavilion on the Eisteddfod's Tuesday night. As he prepares for the show, Meilir is proud of how far things have come:

"If you had told me when I was eight years old that I would be in the pavilion at 34, wearing a dress and heels in front of an audience of 2,000 people, I would not have believed you.

"The fact that we get to own the stage in front of an audience that has chosen to be there – it's definitely a turning point and it opens the Eisteddfod to a wider community, from Wales and beyond, that want to come and enjoy the culture."

We also get a taste of a session by two comedians, who are also partners, Priya Hall and Leila Nevabi, and an interesting discussion about LGBTQ+ writers and their work with Gareth Evans-Jones, Megan Angharad Hunter and Llyr Titus on the Llannerch Stage.

As well as the vibrant Querin performance, a mix of folk dancing and queer culture that celebrates the tradition in a different way and a drag story time in the Children's Village, Iestyn Wyn interviews musician and friend, Lloyd Steele, at Caffi Maes B and we get to hear a special song from him.

And the pinnacle of the week was the Pink Party with the Welsh Ballroom Community in the pavilion, where everyone was welcome to join in the fun. Tik Tok star Ellis Lloyd-Jones was one of the ones who took part:

"Absolutely amazing, camp experience!" Ellis said. "I can't believe that has just happened - and in the Welsh language too! When I was young, I would have loved to see something like this, and to perform in it, it's something massive. So hopefully next year – I'll be there!"

This program is a special celebration of the LGBTQ+ community here in Wales, showing that there is a place for everyone at the Eisteddfod.

"May those changes continue," said Meilir, "so that there is more and more welcome for every member of society at the National Eisteddfod."

**Mas ar y Maes**
**Wednesday 24 August 9.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Rondo/Docshed production for S4C**